



BWRDD
GWASANAETHAU
CYFREITHIOL

Cynllun Iaith Gymraeg

*Crynodeb o'r holl ymatebion i bapur
ymgyngori 2010 ac ymateb yr LSB*

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Yr ymatebion	3
Casgliadau	4
Atodiad A – Ymatebwyr a mynychwyr gweithdai	6

Cyflwyniad

Ar 21 Mai 2010, fe lansiodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol (LSB) bapur ymgynghori 12 wythnos yn cyflwyno ei Gynllun Iaith Cymraeg. Mae'r papur yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd ac unrhyw addasiadau a awgrymwyd i'r Cynllun o ganlyniad.

Anfonwyd y ddogfen at y rheolyddion cymeradwy, grwpiau defnyddwyr a dinasyddion, grwpiau proffesiynol/cynrychiolaeth, rheolyddion eraill, Gweinidogion, adrannau Llywodraeth, amrywiaeth o Seneddwyr ac unigolion eraill â diddordeb. Fe dargedwyd Llywodraeth a sefydliadau cyfreithiol a defnyddwyr yng Nghymru yn benodol.

Yn ogystal, rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r Ymgynghoriad trwy osod hysbyseb ddwyieithog yn y Western Mail ar 22 Mai 2010. Rhoddwyd y Cynllun drafft ar ein gwefan hefyd yn unol ag arferion yr LSB.

Ein nod, fel arfer, oedd i annog sylwadau a thrafodaeth gan ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol.

1 Yr ymatebion

- 1.1 Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 16 Awst 2010 ac erbyn hynny roeddem wedi derbyn tri ymateb. Fe restrir yr ymatebwyr yn Atodiad A.
- 1.2 Yn ystod yr ymarfer ymgynghori, fe brofwyd y Cynllun trwy ei weithredu mewn digwyddiad Fforwm Agored a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a hefyd trwy ddadansoddi cost amcangyfrifedig gweithredu'r Cynllun yn seiliedig ar ddogfennau a gyhoeddwyd yn 2009/2010. Ystyriwyd canlyniadau'r ymarferion hyn ynghyd â'r ymatebion i bennu p'un a oedd angen addasiadau.
- 1.3 Nid oedd dogfen ymgynghori'r Cynllun Iaith Gymraeg drafft yn holi unrhyw gwestiynau penodol – yn hytrach fe groesawodd farn a sylwadau ar bob cynnig polisi. Mae'r pwyntiau allweddol canlynol yn deillio o ddadansoddiad o'r ymatebion:
 - Nid oedd yr un o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r Cynllun.
 - Nid oedd gan ddau sefydliad unrhyw sylwadau i'w cynnig ar y Cynllun yn hytrach nag i'w gefnogi.
 - Gwnaeth un sefydliad awgrymiadau ynglŷn â newidiadau i'r Cynllun.
 - Ni dderbyniwyd ymatebion yn y Gymraeg.
 - Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion gan aelodau unigol o'r cyhoedd.
- 1.4 Ar y cyfan roedd yr ymatebwyr yn gefnogol i'r ymagwedd a amlinellwyd yn y cynllun. Ceir crynodeb o'r ymatebion a sylwadau'r LSB isod:

Llywodraeth Cynulliad Cymru	Roedd eu hymateb yn canolbwyntio'n bennaf ar bwyntiau eglurhad neu ymholiadau drafftio. Cafwyd ymholiad ynglŷn â'n hymagwedd arfaethedig i dderbyn galwadau yn y Gymraeg a p'un a oedd peidio cynnal cyfarfodydd un-i-un yn Llundain yn Gymraeg, neu beidio hysbysebu swyddi yn y Gymraeg yn cyd-fynd â'n dyletswydd i drin y ddwy iaith yn gyfartal.
	Bydd yr LSB yn delio â'r pwyntiau drafftio a godwyd yn unol â'n polisi cyhoeddiadau ein hunain a ble y teimlir y bu'r sylwadau'n ddefnyddiol.
	O ran ein lleoliad a chwmpas ein busnes, teimlir nad yw'n briodol i'r amgylchiadau nac yn rhesymol ymarferol i gynnig gwasanaeth ffôn yn Gymraeg, cyfarfodydd wyneb i wyneb yn Llundain yn Gymraeg nac i hysbysebu swyddi yn Gymraeg.
Cymdeithas y Cyfreithwyr	Nid oedd gan yr ymatebwr unrhyw sylwadau sylweddol ond roeddynt eisiau gwybod beth oedd amcangyfrif yr LSB o'r gost o roi'r cynllun ar waith a'i weithredu pob blwyddyn.
	Darparwyd ymateb i Gymdeithas y Cyfreithwyr parthed yr ymholiad penodol hwn. Delir â'r pwynt hwn ym mharagraff 3.
Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr	Ar y cyfan roedd yr SRA yn cytuno â'r ymagwedd arfaethedig a ystyriwyd i fod yn unol â'u hymagwedd hwy. Fe gefnogwyd yn benodol ein hymroddiad i gyfieithu ar gais a sicrhau'n bod yn diddymu rhwystrau i Reolyddion Cymeradwy yn cyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

2 Casgliadau

- 2.1 Mae'r LSB yn gwerthfawrogi'r unigolion a sefydliadau hynny a gymrodd amser i ddarparu ymatebion, sydd wedi bod yn ddefnyddiol. Byddwn yn gwneud addasiadau i'r Cynllun fel yr amlinellwyd yn Adran 1.
- 2.2 Mae'r LSB hefyd wedi ystyried y meysydd canlynol wrth benderfynu p'un a oes angen unrhyw addasiadau i'r cynllun. Y rhain yw:
- i. Gwir gost gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg mewn digwyddiad a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.
 - ii. Amcangyfrif o'r gost o weithredu'r Cynllun yn seiliedig ar ddogfennau a gyhoeddwyd yn 2009/2010, ac yn dilyn asesiad

o'r holl gyhoeddiadau yn erbyn y meini prawf a amlinellwyd yn Atodiad A.

- 2.3 O ganlyniad i ddarparu cyfieithiad Cymraeg ar gyfer y digwyddiad yng Nghaerdydd fe gynyddodd y gost derfynol o 22% (£476 allan o £2210). Mae'r LSB yn ymroddedig i'r egwyddorion ym mharagraff 4.3.1 y Cynllun, fodd bynnag bydd angen mireinio rhywfaint arno i sicrhau mai dim ond pan fynegir angen y cyflawnir gwaith cyfieithu a chyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg. Bydd angen rhoi rhybudd i fynychwyr bythefnos o flaen llaw i gyfarfod cyhoeddus er mwyn sicrhau y rhoddir digon o amser i drefnu cyfieithiadau a chyfleusterau cyfieithu os oes angen. Bydd hyn yn glir wrth roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad.
- 2.4 Amcangyfrifir mai cost gweithredu'r Cynllun, yn seiliedig ar ddogfennau a gyhoeddwyd yn 2009/2010, yw £6,500. Mae hyn yn seiliedig ar gostau cyfieithu dwy ddogfen ymgynghori ABS (14 Mai 2009 – *Wider Access, Better Value, Strong Protection: Discussion paper on developing a regulatory regime for alternative business structures* a 18 Tachwedd 2009 – *Alternative business structures: approaches to licensing*) ac ymatebion cyfatebol yr LSB. Mae hyn yn faich anghymesur ar yr LSB o gymharu â'r gost o redeg ymgynghoriad yn Saesneg, nad yw'n arwain at gostau ychwanegol. Delir â'r mater hwn mewn dau faes o'r Cynllun:
- Ym mharagraff 4.5, bydd yr LSB yn datgan os bydd dogfennau ymgynghori neu adroddiadau yn bodloni'r meini prawf yn Atodiad A y Cynllun, y bydd y ddogfen gyfan neu'r Crynodeb Gweithredol yn cael ei chynhyrchu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ac y bydd Crynodeb Gweithredol o'r ymateb ymgynghori hefyd yn cael ei ddarparu'n Gymraeg neu'n ddwyieithog.
 - Bydd Atodiad A y Cynllun yn ei gwneud yn glir y dylid cyfieithu dogfen ymgynghori i'r Gymraeg os yw'r testun yn un sy'n ymwneud yn *uniongyrchol* â'r ddarpariaeth o wasanaethau yng Nghymru.

3 Atodiad A – Ymatebwyr

Derbyniwyd ymatebion ysgrifenedig gan:

Mike Miller – Llywodraeth Cynulliad Cymru

Russell Wallman, Cyfarwyddwr Cysylltiadau Llywodraeth – Cymdeithas
y Cyfreithwyr

Richard Silver, Swyddog Polisi, Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr